



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1350 (Cy.98)

2005 No. 1350 (W.98)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Cyflasynnau Mwg
(Cymru) 2005**

**The Smoke Flavourings (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu rhai o ddarpariaethau penodol Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y cyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt (OJ Rhif L309, 26.11.2003, t.1.).

These Regulations, which apply in relation to Wales, provide for the enforcement and execution of certain specified provisions of Regulation (EC) No. 2065/2003 of the European Parliament and of the Council on smoke flavourings used or intended for use in or on foods (OJ No. L309, 26.11.2003, p.1.).

Mae'r Rheoliadau hyn yn benodol -

In particular these Regulations -

- (a) yn dynodi'n ffurfiol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn awdurdod cymwys cenedlaethol i dderbyn ceisiadau ar gyfer awdurdodi cyddwysiadau sylfaenol newydd o fwg a ffracsiynau sylfaenol newydd o dar i'w defnyddio fel y cyfryw mewn bwydydd neu arnynt, neu wrth gynhyrchu cyflasynnau mwg deilliedig i'w defnyddio mewn bwydydd neu arnynt (rheoliad 3);
- (b) yn cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ynghyd â rhai addasiadau o ran eu cymhwyso at ddibenion y Rheoliadau hyn (rheoliadau 4 a 6);
- (c) yn sefydlu cosbau am fethu cydymffurfio â rhai o ddarpariaethau penodol Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 (rheoliad 5 a'r Atodlen);
- (ch) yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn a Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 (rheoliad 7) gan awdurdodau bwyd penodol.

- (a) formally designate the Food Standards Agency as the national competent authority to receive applications for the authorisation of new primary smoke condensates and primary tar fractions for use as such in or on foods, or in the production of derived smoke flavourings for use in or on foods (regulation 3);
- (b) apply various provisions of the Food Safety Act 1990 with some modifications in their application for the purposes of these Regulations (regulations 4 and 6);
- (c) establish penalties for failing to comply with certain specified provisions of Regulation (EC) No. 2065/2003 (regulation 5 and the Schedule);
- (d) provide for certain food authorities to enforce the provisions of these Regulations and Regulation (EC) No. 2065/2003 (regulation 7).

Mae arfarniad rheoliadol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

A regulatory appraisal pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 has been prepared for these Regulations and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

2005 Rhif 1350 (Cy.98)**2005 No. 1350 (W.98)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Cyflasynnau Mwg
(Cymru) 2005****The Smoke Flavourings (Wales)
Regulations 2005***Wedi'u gwneud* 17 Mai 2005*Made* 17 May 2005*Yn dod i rym* yn unol â rheoliad 1*Coming into force* in accordance with
regulation 1

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (c), (e) ac (f), (17)(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(2), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly, in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(a), (c), (e) and (f), 17(2), 26(1) and (3) and 48(1) of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(1) and now vested in it(2), and having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency, and after consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3) makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application****1. O ran y Rheoliadau hyn -****1. These Regulations -**

- (a) eu henw yw Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005;
- (b) deuant i rym -
 - (i) yn achos rheoliad 3 a rheoliadau 1 a 2 i'r graddau y maent yn berthnasol i reoliad 3, ar 27 Mai 2005;
 - (ii) neu fel arall, ar 16 Mehefin 2005;
- (c) maent yn gymwys o ran Cymru.

- (a) may be cited as the Smoke Flavourings (Wales) Regulations 2005;
- (b) come into force -
 - (i) in the case of regulation 3 and regulations 1 and 2 in so far as they relate to regulation 3, on 27 May 2005;
 - (ii) otherwise, on 16 June 2005;
- (c) apply in relation to Wales.

(1) 1990 p.16.

(1) 1990 c.16.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) OJ Rhif L31, 1.2. 2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4). Yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Diwygio) 2004 (O.S. Rhif 2004/2990), gydag effaith o 7 Rhagfyr 2004 ymlaen datgymhwysir y gofyniad i ymgynghori a geir yn adran 48(4) o Ddeddf 1990 mewn unrhyw achos lle y mae ymgynghori yn ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

(3) OJ No. L31, 1.2. 2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4). By virtue of regulation 5 of the Food Safety Act 1990 (Amendment) Regulations 2004 (S.I. No. 2004/2990), with effect from 7 December 2004 the consultation requirement contained in section 48(4) of the 1990 Act is disapplied in any case in which consultation is required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw un o ddarpariaethau Rheoliad 2065/2003 a bennir yng ngholofn 1 ac a ddisgrifir yng ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990";

ystyr "Rheoliad 2065/2003" ("*Regulation 2065/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflwynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt(1).

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 2065/2003 yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn Rheoliad 2065/2003 ac yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at erthygl neu atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r atodiad â'r rhif hwnnw yn Rheoliad 2065/2003.

Gweinyddu Rheoliad 2065/2003

3. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd(2) yw'r awdurdod cenedlaethol cymwys at ddibenion Erthygl 7 o Reoliad 2065/2003 (cais am awdurdodiad).

Condemnio bwyd

4.-(1) Os aed yn groes i unrhyw un o Erthyglau 4.2, 5.1, 5.2, 9.4, neu 9.5 mewn perthynas ag unrhyw fwyd-

- (a) rhaid trin y bwyd hwnnw at ddibenion adran 9 o'r Ddeddf fel pe bai'n methu cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd; a
- (b) os rhan o swp, lot neu o lwyth o fwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad yw'r bwyd hwnnw, hyd nes y profir i'r gwrthwyneb, rhaid tybio bod y cyfan o'r bwyd sydd yn y swp hwnnw, yn y lot hwnnw neu yn y llwyth hwnnw'n methu cydymffurfio â'r gofynion hynny.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn mae "bwyd" yn cynnwys unrhyw gyddwysiad sylfaenol o fwg, ffraciwn sylfaenol o dar neu gyflwyn mwg deilliedig.

Tramgwyddau a chosbau

5. Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig sydd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu sy'n methu cydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990";

"Regulation 2065/2003" ("*Rheoliad 2065/2003*") means Regulation (EC) No. 2065/2003 of the European Parliament and of the Council on smoke flavourings used or intended for use in or on foods(1);

"specified Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol benodedig*") means a provision of Regulation 2065/2003 specified in column 1 and described in column 2 of the Schedule to these Regulations.

(2) Other expressions used in these Regulations and in Regulation 2065/2003 have the same meanings in these Regulations as in Regulation 2065/2003 and in these Regulations any reference to a numbered article or annex is a reference to the article or annex so numbered in Regulation 2065/2003.

Administration of Regulation 2065/2003

3. The national competent authority for the purposes of Article 7 of Regulation 2065/2003 (application for authorisation) is the Food Standards Agency(2).

Condemnation of food

4.-(1) Where, in relation to any food, a contravention of any of Articles 4.2, 5.1, 5.2, 9.4, or 9.5 has occurred -

- (a) that food is to be treated for the purposes of section 9 of the Act as failing to comply with the food safety requirements; and
- (b) if that food is part of a batch, lot or consignment of food of the same class or description it is to be presumed, until the contrary is proved, that all of the food in that batch, lot or consignment fails to comply with those requirements.

(2) For the purposes of this regulation "food" includes any primary smoke condensate, primary tar fraction or derived smoke flavouring.

Offences and penalties

5. Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified Community provisions contained in the Schedule to these Regulations is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

(1) OJ Rhif L309, 26.11.2003, t.1.

(2) Cyfeiriad yr Asiantaeth yng Nghymru yw Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

(1) OJ No. L309, 26.11.2003, p.1.

(2) Whose address in Wales is 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

6. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 2065/2003 fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf -

- (a) adran 3 (rhagdybiaeth y bwriedir bwyd i'w fwyta gan bobl);
- (b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf honno);
- (ch) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes);
- (d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (dd) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (e) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);
- (f) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);
- (ff) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);
- (g) adran 36 (tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol); ac
- (ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Gorfodi

7. Bydd rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

17 Mai 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Application of various provisions of the Food Safety Act 1990

6. The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations and Regulation 2065/2003 as they apply for the purposes of the Act -

- (a) section 3 (presumption that food is intended for human consumption);
- (b) section 20 (offences due to the fault of another person);
- (c) section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of sections 14 or 15 of that Act);
- (d) section 22 (defence of publication in the course of business);
- (e) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (f) section 33(1) (obstruction, etc. of officers);
- (g) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection 1(b) above" is deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by sub-paragraph (f);
- (h) section 35(1) (punishment of offences) insofar as it relates to offences under section 33(1) as applied by sub-paragraph (f);
- (i) section 35(2) and (3) insofar as it relates to offences under section 33(2) as applied by sub-paragraph (g);
- (j) section 36 (offences by bodies corporate); and
- (k) section 44 (protection of officers acting in good faith).

Enforcement

7. Each food authority is to enforce and execute these Regulations within their area.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

17 May 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

Rheoliadau 2 a 4

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG

<i>Darpariaeth Rheoliad 2065/2003</i>	<i>Y Pwnc</i>
Erthygl 4.2	<p>Gwahardd marchnata cyflasyn mwg nad yw ar y rhestr o gyflasynnau mwg awdurdodedig, neu unrhyw fwyd y mae cyflasyn mwg o'r fath yn bresennol ynddo neu arno.</p> <p>Gwahardd marchnata cyflasyn mwg awdurdodedig, neu unrhyw fwyd y mae cyflasyn mwg o'r fath yn bresennol ynddo neu arno, ac eithrio yn uno ag unrhyw amodau defnyddio a osodwyd yn yr awdurdodiad.</p>
Erthygl 5.1	<p>Gwahardd defnyddio pren wedi'i drin, oni ellir dangos drwy dystysgrif neu ddogfennaeth briodol nad yw'r sylwedd a ddefnyddir i drin y pren, wrth iddo ymlosgi, yn peri sylweddau a allai fod yn wenwynig.</p> <p>Gofyniad y gellir dangos drwy ddogfennaeth neu dystysgrif fod rhywun wedi cydymffurfio â'r gwaharddiad a ddisgrifir uchod.</p>
Erthygl 5.2	<p>Gofyniad y cydymffurfir â'r amodau yn Atodiad 1 wrth gynhyrchu cynhyrchion cynradd.</p> <p>Gwahardd y defnydd o'r cyflwr olewaidd anhoddadwy mewn dŵr wrth gynhyrchu cyflasynnau mwg.</p>
Erthygl 9.4	<p>Gofyniad bod yn rhaid i ddeiliad awdurdodiad neu unrhyw weithredydd busnes bwyd arall, sy'n defnyddio cynnyrch awdurdodedig, neu gyflasyn mwg deilliedig a gynhyrchir o gynnyrch awdurdodedig, gydymffurfio ag unrhyw amodau neu gyfyngiadau sydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad.</p>
Erthygl 9.5	<p>Gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn hysbysu'r Comisiwn o unrhyw wybodaeth wyddonol neu dechnegol newydd sy'n ymwneud â chynnyrch awdurdodedig, ac a allai ddylanwadu ar werthuso diogelwch y cynnyrch awdurdodedig hwnnw.</p>
Erthygl 13.1	<p>Gofyniad bod gweithredwyr busnesau bwyd yn sicrhau y trosglwyddir yr wybodaeth benodedig i'r gweithredydd busnes bwyd sy'n derbyn y cynnyrch pan osodir y cynnyrch ar y farchnad am y tro cyntaf.</p>
Erthygl 13.2	<p>Gofyniad, yn sgil gosod cynnyrch ar y farchnad am y tro cyntaf, bod gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gosod y cynhyrchion ar y farchnad yn trosglwyddo'r wybodaeth benodedig yn Erthygl 13.1 i'r gweithredwyr busnes bwyd sy'n derbyn y cynnyrch, bob tro y rhoddir y cynnyrch ar y farchnad.</p>
Erthygl 13.3	<p>Gofyniad bod gan weithredwyr busnesau bwyd systemau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n nodi gan bwy y maent wedi derbyn y cynnyrch ac i bwy y maent wedi ei drosglwyddo.</p>

SCHEDULE

Regulations 2 and 4

SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS

<i>Provision of Regulation 2065/2003</i>	<i>Subject Matter</i>
Article 4.2	<p>Prohibition on marketing a smoke flavouring not on the list of authorised smoke flavourings, or any food in or on which such a smoke flavouring is present.</p> <p>Prohibition on marketing an authorised smoke flavouring, or any food in or on which such a smoke flavouring is present, otherwise than in accordance with any conditions of use laid down in the authorisation.</p>
Article 5.1	<p>Prohibition on using treated wood, unless it can be demonstrated by appropriate certification or documentation that the substance used in treatment does not give rise to potentially toxic substances during combustion.</p> <p>Requirement to be able to demonstrate by documentation or certification that the prohibition described above has been observed.</p>
Article 5.2	<p>Requirement to observe conditions in Annex I during production of primary products.</p> <p>Prohibition on the use of water-insoluble oily phase during production of smoke flavourings.</p>
Article 9.4	<p>Requirement that an authorisation holder or any other food business operator using an authorised product, or a derived smoke flavouring produced from an authorised product, is to comply with any conditions or restrictions attached to the authorisation.</p>
Article 9.5	<p>Requirement that an authorisation holder inform the Commission of any new scientific or technical information relating to an authorised product which might influence the assessment of the safety of that authorised product.</p>
Article 13.1	<p>Requirement that food business operators ensure that the information specified is transmitted to the receiving food business operator when the product is first placed on the market.</p>
Article 13.2	<p>Requirement that following first placing on the market, on each occasion that the product is placed on the market, food business operators placing the products on the market transmit the information specified in Article 13.1 to the receiving food business operators.</p>
Article 13.3	<p>Requirement that food business operators have systems and procedures in place to identify from whom they received and to whom they passed on the product.</p>

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1350 (Cy.98)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cyflasynnau Mwg
(Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1350 (W.98)

FOOD, WALES

The Smoke Flavourings (Wales)
Regulations 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W78/5/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091130-X



9 780110 911304